Cyswllt Celf
Arts Connection

Canolfan Ieuenctid a Chymunedol
Llanfyllin
Powys SY22 5DR
CYMRU

Youth & Community Centre
Llanfyllin
Powys SY22 5DR
WALES

COMPANY REGISTERED IN ENGLAND AND WALES - 2911716 - CWMNI COFRESTREDIG YNG NGHYMRU A LLOEGR
REGISTERED CHARITY NUMBER - 1135641 - RHIF ELUSEN GOFRESTREDIG

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by Welsh Assembly Government

Supported by The National Lottery through the Arts Council of Wales
Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol trwy Gyngor Celfyddydau Cymru

Ffôn 01691 648 929 Phone
Ffôn Symudol 07814 523 521 Mobile Phone

e-bost nerys / sian@artsconnection.org.uk e-mail
gwefan www.artsconnection.org.uk - www.cyswlltcelf.org.uk web

# Briff Artistiaid Prosiect Ysgolion Wrecsam 2010

**- Rhaglennir i ddigwydd Mis Medi 2010 - Chwefror 2011 -**

**Cefndir a Chyd-destun**
Bydd Cyswllt Celf yn rhedeg rhaglen o weithgareddau celf o fewn ysgolion Wrecsam er mwyn hyrwyddo'r Eisteddfod Genedlaethol sydd i'w chynnal yno yn 2011, yn ogystal â dathlu Blwyddyn Diwylliant Wrecsam yr un flwyddyn. Bydd y rhaglen o weithgareddau yn cychwyn ym mis Medi 2010 ac yn rhedeg hyd at Chwefror 2011.

**Briff**
Rhedeg gweithdai celf o fewn ysgolion Wrecsam trwy gyfrwng y Gymraeg neu yn ddwyieithog, neu gyda chysylltiad cryf â diwylliant a threftadaeth Cymru. Gellir cynnal prosiectau mewn unrhyw gyfrwng celfyddydol - celfyddydau gweledol, cerddoriaeth, ffilm ac ati.

Ni ddylai cynigion prosiect barhau am fwy na 5 niwrnod (neu amser cyffelyb); efallai yr hoffech gynnwys amrediad o strwythurau h.y. prosiectau y gellir eu cyflawni o fewn diwrnod neu ddau, ac y gellir eu rhedeg mewn nifer o ysgolion.

Bydd angen i chi gynnwys cyllideb gyda ffioedd artistiaid, costau deunyddiau, costau teithio ac ati, a nodi hefyd pa gefnogaeth ychwanegol fydd ei hangen i'r prosiect.

**Canllawiau Tâl at bwrpas Cyllidebu**
Cyfradd Ddyddiol Artist - £150; os ydych yn teithio dros 50 milltir (cyfanswm yno ac yn ôl) telir costau teithio ar raddfa £0.40 y filltir.

**Dethol a Chymhwyster**
Bydd angen i artistiaid sy'n ymgeisio dangos profiad ym maes celfyddydau cymunedol, a phrofiad o weithio gyda phlant oedran cynradd a phobl ifanc.

**Y Broses Ymgeisio**
Gofynnir i artistiaid gyflwyno:

- Ffurflen Cynnig Prosiect
- Llythyr Atodol
- O leiaf 5 llun o waith blaenorol (os nad ydych wedi gweithio i Gyswllt Celf o'r blaen)
- CV
- Rhif CRB a'r Dyddiad Cyhoeddi (os nad oes gennych wiriad CRB, bydd yn rhaid i chi fynd drwy'r broses wirio cyn cychwyn ar y prosiect; cost hyn yw £36)

D.S.: gall methu â chyflwyno unrhyw un o'r uchod ddiddymu eich cais.

Dylid anfon eich cais, naill ai ar e-bost neu drwy'r post at: sian@artsconnection.org.uk neu Cyswllt Celf, Canolfan Ieuenctid a Chymunedol, Llanfyllin, Powys, SY22 5DR

**Dyddiad cau i dderbyn ceisiadau: Dydd Llun 2ail Awst 2010**